**ATODIAD 1**

Bridgend County Borough Council
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
www.bridgend.gov.uk

# Cynllun Cydraddoldeb Strategol Adroddiad Blynyddol 2023-24

## Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd.

1. Cefndir ..... 3
2. Cyflwyniad ..... 4
3. Cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion yn ystod 2023/24 ..... 4
4. Cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu ..... 12
5. Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb (EIAs) ..... 13
6. Trefniadau caffael ..... 13
7. Gwybodaeth cyflogaeth ..... 14
8. Gweithwyr ar 31 Mawrth 2024 yn ôl Gradd ..... 15
9. Ymgeiswyr am Swyddi ..... 17
10. E-ddysgu Gweithwyr ..... 19
11. Materion Datrys a Disgyblu ..... 20
12. Ymadawyr ..... 20
13. Ymgysylltu ac ymgynghori ..... 21
14. Cysylltu â ni ..... 22

## 1. Cefndir

Nod yr awdurdod yw deall a mynd i'r afael â'r rhwystrau cydraddoldeb y mae pobl yn eu hwynebu fel bod pawb yn cael cyfle teg i gyflawni eu potensial. Ein nod yw sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan o bopeth a wnawn a'r gwasanaethau rydym yn eu darparu.

Ein nod yw datblygu ein gwasanaethau a'n gweithgareddau yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) a'r dyletswyddau cyffredinol a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Bydd hyn yn ein helpu i gael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da.

Ein hamcan yw i brif-ffrydio cydraddoldeb ac amrywiaeth, yn fewnol ac yn allanol.

Rydym yn adrodd ar y cynnydd a wneir tuag at gyflawni'r chwe amcan strategol hyn yn flynyddol:

| Amcan | Beth rydym yn gobeithio ei gyflawni/gefnogi? |
|---|---|
| **Amcan 1:**<br>**Addysg** | Dylai pawb sy'n cael mynediad at addysg fod yn rhydd rhag gwahaniaethu, bwlio a cham-drin mewn sefydliadau addysgol. |
| **Amcan 2:**<br>**Gwaith** | Hyrwyddo gweithlu mwy cynhwysol a gwella cyfranogiad, lles a chyfleoedd datblygu ar gyfer rhai â nodweddion gwarchodedig. |
| **Amcan 3:**<br>**Safonau byw** | Mynd i'r afael â thlodi a chefnogi byw'n annibynnol drwy ystyried effaith unrhyw benderfyniadau neu newidiadau i bolisïau o dan y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. |
| **Amcan 4:**<br>**Iechyd a lles** | Cefnogi a hyrwyddo iechyd meddwl ac iechyd corfforol da yn ein cymunedau a'n gweithlu, a chynnig cyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol a hamdden. |
| **Amcan 5:**<br>**Diogelwch a pharch** | Sicrhau bod gan bobl yn ein cymunedau fynediad at wasanaethau sy'n eu cefnogi i fyw heb ofni trais neu gam-drin, a'u bod yn cael eu trin â pharch. |
| **Amcan 6:**<br>**Cymryd rhan** | Annog pobl a chymunedau i gymryd rhan a dangos diddordeb mewn materion sy'n bwysig iddyn nhw, ac i ddylanwadu ar y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. |

## 2. Cyflwyniad

Dyma ein pedwerydd adroddiad blynyddol, a’r olaf ar gyfer y cynllun strategol hwn. Bydd yr adroddiad blynyddol nesaf yn nodi’r cynnydd a wnaed tuag at yr ymrwymiadau a’u nodir yng Nghynllun Cydraddoldeb Strategol 2024-2028. Mae’r camau gweithredu unigol wedi’u nodi yn y cynllun gweithredu corfforaethol a ddatblygwyd ac sydd ynghlwm yn Atodiad 2.

Er mwyn paratoi'r adroddiad hwn, gwnaethom goladu data a gasglwyd o’r meysydd gwasanaeth ynghylch y cynnydd a wnaed ganddynt o ran cyflawni eu hamcanion penodol. Mae'r data a ddarparwyd gan y meysydd gwasanaeth a phartneriaid, yn cynnig ffordd barhaus o fonitro cynnydd yn erbyn ein hamcanion a'n gweithredoedd.

## 3. Cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion yn ystod 2023/24

Gellir crynhoi'r cynnydd allweddol o dan ein saith amcan fel a ganlyn:

### 3.1 Addysg

- Mae gan Gonsortiwm Canolbarth y De raglen gynhwysfawr o ddysgu proffesiynol ar gyfer holl ymarferwyr a llywodraethwyr y rhanbarth i sicrhau eu bod yn gallu ymgysylltu â datblygu dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth heb unrhyw gost i’r ysgolion. Mae’r rhaglen dysgu proffesiynol a’r holl adnoddau’n cael eu datblygu i gyflawni gweledigaeth Consortiwm Canolbarth y De a grymuso ysgolion i wella deilliannau ar gyfer pob dysgwr. Er tegwch, mae hi’n ofynnol bod Consortiwm Canolbarth y De yn sicrhau eu bod yn cymryd ystod unigryw anghenion, amgylchiadau a chefndiroedd unigolion a grwpiau o ddysgwyr o fewn y rhanbarth a phob awdurdod lleol i ystyriaeth ac yn ymateb iddynt.

- Mae Consortiwm Canolbarth y De yn darparu ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol i ysgolion ac ymarferwyr gefnogi datblygiad cwricwla ar gyfer ysgolion a chwrdd ag agweddau gofynnol y cwricwlwm i Gymru gan gynnwys cwrdd â phedwar diben y cwricwlwm a sicrhau fod cynnig cwricwlwm eang a chytbwys i’r holl ddisgyblion.

- Mae Consortiwm Canolbarth y De wedi lansio ardal newydd ar eu gwefan ‘Safonau a Dyheadau Uchel: Tegwch a rhagoriaeth i bawb.’ Mae’r adnodd yn darparu cronfa o gyfleoedd dysgu proffesiynol, deunyddiau canllaw, offer hunanwerthuso, a rhannu arferion ysgol mewn tri maes allweddol:
    - Cwricwlwm, addysgu a dysgu
    - Lles, gofal, cefnogaeth ac arweiniad
    - Arwain a gwella

Dros y misoedd nesaf, bydd Consortiwm Canolbarth y De yn parhau i ddatblygu'r adnoddau mewn partneriaeth gydag ysgolion ac awdurdodau lleol. Nod yr adnoddau yw cefnogi ysgolion i werthuso eu darpariaeth, nodi meysydd i'w datblygu ymhellach a rhannu arfer gwerthfawr gan ysgolion ar draws y rhanbarth sy'n effeithiol wrth gwrdd ag anghenion pob dysgwr.

- Mae'r cyfleoedd dysgu proffesiynol a ddatblygwyd gan Gonsortiwm Canolbarth y De i gefnogi dysgu themâu sy'n berthnasol i gymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) a 'cynefin', yn parhau i gyd-fynd â chanfyddiadau ac argymhellion gweithgor Llywodraeth Cymru. Mae'r adnoddau a'r cyfleoedd dysgu proffesiynol hyn ar gael i bob ymarferwr ac ysgol.

- Mae Consortiwm Canolbarth y De yn gweithio mewn partneriaeth â Dysgu Proffesiynol Amrywiaeth a Gwrth-hiliaeth (DARPL) i sicrhau fod dysgu proffesiynol o safon uchel ar gael i bob ysgol. Mae cynadleddau wedi'u hyrwyddo ar gyfer arweinwyr ysgolion, ymarferwyr, a llywodraethwyr ysgol.

- Lle mae gan ysgolion flaenoriaeth strategol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb, bydd partneriaid gwella Consortiwm Canolbarth y De yn gweithio ar y cyd ag arweinwyr ysgolion i werthuso cynnydd ac effaith gwaith cynllun datblygu'r ysgol. Lle mae angen cymorth mwy dwys ar ysgol, caiff hyn ei drefnu gan y partner gwella ysgolion sef cyn-benaethiaid sydd â'r rôl o gefnogi penaethiaid presennol gydag unrhyw welliant ysgol a nodir.

- Mae Consortiwm Canolbarth y De wedi sicrhau mynediad am ddim i bob ysgol yn y rhanbarth i'r pecyn ar-lein *Thinking Differently* gan Challenge Education. Mae'r Dysgu Proffesiynol hwn yn seiliedig ar chwe modiwl hyfforddiant wedi'u recordio sydd ar gael i bob aelod o staff. Mae'r sesiynau wedi'u hymchwilio a'u cyflwyno gan hyfforddwyr arbenigol ac arweinwyr ysgol profiadol sy'n meddu ar gyfoeth o wybodaeth ynghylch arweinyddiaeth ac addysgu plant a phobl ifanc difreintiedig. Prif nod y dysgu proffesiynol hwn yw gwella cyrhaeddiad plant a phobl ifanc difreintiedig ac mae'n canolbwyntio ar gefnogi ysgolion wrth iddynt roi cefnogaeth i ddisgyblion sy'n byw mewn tlodi, gan gynnwys disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim.

- Mae partneriaid gwella Consortiwm Canolbarth y De yn gweithio ar y cyd ag arweinwyr ysgol i gynllunio a gwerthuso effaith Grant Datblygu Disgyblion y mae ysgolion yn ei defnyddio i gefnogi a hyrwyddo cyrhaeddiad disgyblion difreintiedig ac sy'n agored i niwed ym mhob ysgol.

- Mae disgwyl i Grŵp Cydraddoldebau Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc (EEYYP) gael ei sefydlu. Bydd y grŵp yn cynnwys swyddogion awdurdod lleol amrywiol o fewn Cyfarwyddiaeth EEYYP, ynghyd ag uwch arweinwyr/athrawon o ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Bydd y grŵp yn gyfrifol am adrodd ar lefelau gwirioneddol ymddygiad gwahaniaethol mewn ysgolion, gyda'r nod i gefnogi ysgolion wrth ostwng lefelau ymddygiad gwahaniaethol. Rhan o'r broses hon fydd nodi arfer o ran cydraddoldebau a rhannu hyn ar draws ein hysgolion.

## 3.2 Gwaith

- Mae sawl ymgyrch codi ymwybyddiaeth wedi cael eu hyrwyddo fel diwrnod ymwybyddiaeth awtistiaeth, diwrnod rhyngwladol y merched ayyb. Mae rhestr o ymgyrchoedd sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig wedi'i datblygu a bydd y rhain yn parhau i gael ei hyrwyddo.

- Mae nifer o grwpiau rhwydwaith staff wedi'u datblygu, gan gynnwys ar gyfer y menopos, ac anabledd. Maent yn cwrdd yn rheolaidd i ddarparu amgylchedd diogel a chyfrinachol i rwydweithio, cwestiynu, herio, codi materion a derbyn cefnogaeth.

- Mae Fforwm Staff Cymraeg wedi'i ddatblygu: Mae Iaith Gwaith, sy'n cynnwys staff o bob lefel gallu, yn cyfarfod yn fisol i ymarfer eu sgiliau Cymraeg a darparu cymorth gyda gofynion Safonau'r Gymraeg.

- Mae'r broses asesu effaith cydraddoldeb a'r ffurflenni sgrinio wedi'u diweddaru i gynnwys y rhai sy'n gadael gofal fel nodwedd warchodedig ychwanegol. Mae'r staff wedi cael gwybod am y newid hwn ac mae'r hyfforddiant e-ddysgu wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu'r newid hwn.

- Trwy gydol y flwyddyn, mae'r cyngor wedi annog gweithwyr i ddiweddaru eu gwybodaeth sensitif trwy'r system hunan-wasanaethu i weithwyr. Mae ffurflen cyfleoedd cyfartal ddiwygiedig wedi'i datblygu a'i chyflwyno eleni, sydd ar gael drwy'r system hunan-wasanaethu i weithwyr ac i bob gweithiwr newydd. Yn ystod cyfnod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae adroddiadau gwybodaeth cyflogaeth wedi
cael eu diweddaru ac maent bellach yn darparu mwy o fanylion ynghylch y nodweddion gwarchodedig.

- Mae'r cyngor yn parhau i adrodd yn flynyddol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, sy'n fesur cydraddoldeb statudol o'r gwahaniaeth rhwng tâl cyfartalog dynion a menywod, heb ystyried eu gwaith, ar draws y sefydliad. Mae hyn yn wahanol i gyflog cyfartal sy'n cymharu sut mae dynion a menywod yn cael eu talu am wneud yr un swydd neu swyddi tebyg. Y bwlch cyflog rhwng y rhywiau fel ag yr oedd ar 31ain o Fawrth 2024 - cyflwyniad wedi'i adrodd sy'n dangos o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

- Mae'r cyngor wedi rhagori ar ei darged o benodi prentisiaid yn ystod 2023/2024 drwy gyflogi 46 o brentisiaid. Mae 6 o raddedigion pellach wedi'u cyflogi, gydag un wedi'i gyflogi mewn swydd anodd ei llenwi i gefnogi cynllunio olyniaeth.
Bydd y cyngor yn parhau i gefnogi gwasanaethau i benodi prentisiaid a graddedigion lle mae'r gyllideb yn caniatáu.

- Fe wnaeth y cyngor adnewyddu ei statws Hyderus o ran Anabledd yn ystod 2023 ac mae wedi dechrau'r broses o ddod yn Arweinydd Anabledd, gyda chymorth gan Awen a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

- Fe wnaed yr e-ddysgu ymwybyddiaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn orfodol y llynedd, ac mae gwaith wedi'i wneud trwy gydol y flwyddyn i hyrwyddo'r modiwl hwn. Hyd yma mae bron i hanner y gweithlu wedi cwblhau'r modiwl.
  Bydd cyfathrebiad yn parhau trwy gydol y flwyddyn sydd i ddod i bwysleisio pwysigrwydd staff yn cwblhau'r modiwl hwn gyda'r bwriad o gyflawni cyfradd gwblhau o 100%.

- Trwy gydol y flwyddyn mae Stonewall wedi parhau i gyflwyno hyfforddiant LHDT+ i weithwyr y Cyngor. Yn ystod 2023/24 cyflwynwyd tri gweithdy i 15 o gyfranogwyr. Yn ystod cyfnod y Cynllun Cydraddoldeb Strategol mae 10 gweithdy wedi'u cyflwyno i 68 o gyfranogwyr. Wrth symud ymlaen i 24/25, bydd LHDT+ yn cael ei gyflwyno drwy e-ddysgu.

- Mae cyfeiriadau i ac o ddarparwyr eraill yn parhau wrth i Gyflogadwyedd Pen-y-bont ar Ogwr gyfeirio pobl i'r gwasanaeth gorau i gwrdd â'u hanghenion o'r ystod eang o ddarpariaeth ar draws y sir.

- Mae gwaith partneriaeth yn gynhyrchiol gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau, gan gyfeirio 1342 o bobl i Gyflogadwyedd sy'n dangos cryfder y berthynas. Mae cyfeiriadau hefyd rhwng Cyflogadwyedd a Chymru'n Gweithio a gwaith ar y cyd i ddatblygu ffeiriau swyddi a gweithgareddau ymgysylltu eraill. Cynhaliwyd digwyddiad hyfforddiant yn Carnegie House i hyrwyddo'r amrywiaeth o hyfforddiant am ddim sydd ar gael a'r ystod o ddarparwyr sy'n gweithredu yn y sir i gefnogi pobl i ennill sgiliau fel bod modd iddynt gael swydd neu gael swydd well.

### 3.3 Safonau byw

- Ym mis Mawrth 2022, daeth y cyngor yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig, yr ail awdurdod lleol yng Nghymru i gael ei gymeradwyo gan y Sefydliad Cyflog Byw.

- Fe wnaeth y codiad cyflog o Ebrill 2023 gael effaith gadarnhaol ar 1007 o weithwyr BCBC y mae 87.7% ohonynt yn fenywod.

- Cafodd hyfforddiant ar weithredu'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ei gwblhau a'i gyflwyno i'r staff. Mae yna hefyd dudalen bwrpasol ar y fewnrwyd y gall staff gyfeirio ati i gael arweiniad unrhyw bryd.

- Yn ystod haf 2023, cyflwynwyd y rhaglen Bwyd a Hwyl (y Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau Ysgol gynt) mewn pedair o ysgolion Pen-y-bont ar Ogwr, gan fod o fudd i 126 o blant.

### 3.4 Iechyd a lles

- Trwy gydol y flwyddyn mae iechyd a lles yn parhau i gael ei hyrwyddo ac yn parhau i fod yn agenda hynod bwysig ar gyfer y cyngor. Mae mentrau pellach i gefnogi Iechyd a Lles wedi'u hyrwyddo, fel Beicio i'r Gwaith a'r ap gwobrwyon Brivilege. Rhoddwyd cyflwyniadau i lywodraethwyr ysgol hefyd a bydd hyn y parhau. Mae menter Boditrax, mewn partneriaeth â Halo, hefyd wedi'i thrafod ac yn debygol o ddigwydd yn ystod 24/25.

- Mae gwaith partneriaeth yn parhau gyda Bwrdd Iechyd CTM a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o ran rhannu a hyrwyddo adnoddau.

- Trwy gydol y flwyddyn bu ymchwil a thrafodaethau ynghylch y protocol menopos a'r fenter Cymru sy'n falch o'r mislif. Mae AD wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Swyddog Urddas i hyrwyddo'r defnydd o'r tanysgrifiad am ddim i Grace and Green ynghyd â darparu nwyddau mislif ym mhob toiled o fewn Swyddfeydd Dinesig. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i ragor o swyddfeydd yn ystod 2024/25.

- Fe wnaeth y cyngor ragori ar ei darged i ddarparu dysgu iechyd meddwl i'w staff gyda dros 200 o staff yn ymgymryd â'r dysgu yn ystod y flwyddyn. Bydd yr holl hyfforddiant lles nawr yn cael ei ddatblygu a'i symud i fodiwlau e-ddysgu yn ystod 2024-25 gyda'r bwriad o gyrraedd mwy o staff. Bydd Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) hefyd yn cynnal gweithdai iechyd meddwl wedi'u hariannu i'r holl staff ei mynychu. Bydd y sesiynau hyn (e-ddysgu a WULF) bellach yn rhan o'r pecyn dysgu ai gynigir i holl staff y cyngor.

- Mae nifer o adnoddau a chymorth ymwybyddiaeth iechyd meddwl ar gael i staff drwy weithdai, Newyddion Hwb Iechyd, datblygu tudalen mewnrwyd ar gyfer Iechyd a Lles ynghyd â gweithdai lles.

- Mae'r cyngor wedi datblygu ei brotocol ar gyfer gofalwyr i gynnwys y ddeddfwriaeth newydd, Deddf Absenoldeb i Ofalwyr 2024, a ddaeth i rym 6 Ebrill 2024. Mae'r Ddeddf newydd yn rhoi hawl i weithwyr gael un wythnos o absenoldeb di-dâl y flwyddyn (pro-rata ar gyfer gweithwyr rhan-amser), er mwyn gofalu am ddibynnydd gydag anghenion gofal tymor hir. Bydd y protocol yn fyw ar dudalennau mewnrwyd y cyngor i reolwyr a gweithwyr gael mynediad ato.

- Mae BCBC wedi cynnal gweithio ar y cyd â Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru sydd wedi cynnwys cyfleoedd i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. Mae hyn wedi cynnwys rhaglenni cenedlaethol fel cyfeirio ymarfer corff, mentrau sy'n canolbwyntio ar anableddau ynghyd â rhaglen nofio am ddim ar sail oedran. Mae gwasanaethau diwylliannol wrth eu boddau ag Awen sydd wedi sicrhau buddsoddiad ychwanegol drwy ddod yn bartner cenedlaethol i Gyngor Celfyddydau Cymru i ehangu

cwmpas y celfyddydau. Mae'r cynllun Hynt yn cefnogi gofalwyr di-dâl i fynychu digwyddiadau gyda'r rhai y maent yn gofalu amdanynt ac mae wedi profi twf mewn defnydd. Mae'r rhaglen Super Agers wedi cwblhau ei adolygiad o effaith gan lwyddo i gael £3.85 am bob punt ai buddsoddir mewn enillion cymdeithasol.

- Bu gwaith gyda Grŵp Rhwydwaith Cynhwysol Pen-y-bont ar Ogwr i helpu i gyflwyno a datblygu hyfforddiant ar draws ein cymunedau. Bu hefyd gwaith wedi'i dargedu i gefnogi pobl ifanc gydag anghenion ychwanegol drwy weithgareddau fel nofio, therapi adlam, dawnsio a gweithgareddau ieuenctid. Mae rhwydwaith o grwpiau a arweinir gan y gymuned sy'n cefnogi cyfleoedd wedi parhau i ddatblygu.

- Mae'r Cyngor wedi parhau i gynnig ei raglenni Diwrnodau Darganfod gan gynnwys datblygu cyfleoedd i bobl ifanc er mwyn cefnogi'r newid i leoliadau cymunedol.

- Trwy gefnogaeth Cynghorau Tref a Chymuned fe wnaeth y rhaglenni Actif am Oes dros yr haf ddenu nifer uchel o gyfranogwyr gan gynnwys pobl ifanc ag anghenion ychwanegol a oedd yn gallu integreiddio.

- Mae cymorth wedi'i dargedu ar gyfer mynediad hamdden a hefyd i ddatblygu gallu nofio wedi'i brofi'n bosibl yn 2023-24. Bu modd cefnogi rhaglen gynhwysol dros yr haf yn Ysgol Heronsbridge a redodd yn llwyddiannus. Mae'r cyngor wedi nodi cefnogi pobl ifanc ag anghenion ychwanegol fel blaenoriaeth yn ei asesiad digonolrwydd chwarae.

- Mae asesiad digonolrwydd chwarae a chynllun gweithredu wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod a'u cymeradwyo gan y Cabinet. Mae gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned wedi parhau i gefnogi cyfleoedd am ddim dros y gwyliau i blant a phobl ifanc. Datblygwyd cyfleoedd penodol hefyd i gefnogi anghenion amrywiol gan gynnwys anableddau, plant sydd wedi profi gofal a gofalwyr ifanc. Fe wnaeth buddsoddiad Haf o Hwyl Llywodraeth y DU alluogi gweithio mewn partneriaeth o'r newydd gyda grwpiau cymunedol ac yn benodol grwpiau ieuenctid. Mae rhaglenni Gwyliau Gwaith wedi cefnogi ymyriadau wedi'u targedu. Mae Halo Leisure wedi cefnogi cyfleoedd am ddim drwy gydol y flwyddyn ac mae Awen wedi cyflwyno rhaglenni yn y llyfrgell ac ystod o ddigwyddiadau diwylliannol.

## 3.5 Diogelwch a pharch

- Rydym yn parhau i weithio gyda grwpiau cymunedol a chydraddoldeb o fewn Fforwm Cydlyniant Cymunedol Pen-y-bont ar Ogwr (BCCEF), lle mae cynrychiolwyr o ar draws y gymuned sy'n cynrychioli ystod eang o sefydliadau yn cwrdd pob chwarter i rannu arferion, i gael sesiynau briffio ar y cyd a hyfforddiant. Gwahoddir yr holl aelodau i rannu gwybodaeth am BCCEF gyda sefydliadau eraill gyda'r nod o gynyddu aelodaeth a chynrychiolaeth.

- Rydym yn parhau i gefnogi digwyddiadau Balchder. Bu i'r swyddog Cydraddoldeb fynychu'r digwyddiadau a bu i ni hyrwyddo digwyddiadau eraill a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol eraill fel rhan o'n hymrwymiad fforwm Cynghorau Balch. Mis Hanes LHDTCRhA+ - Fe wnaeth Cynghorau Balch weithio gyda'i gilydd eleni i greu calendr o ddigwyddiadau Balchder ynghyd ag ymgyrchoedd ymwybyddiaeth iechyd sy'n addas ar gyfer y gymuned LHDTC.

- Mae'r Tîm Cydlyniad wedi comisynu Small Steps i gyflwyno cyfres o sesiynau hyfforddi ar draws y rhanbarth. Mae Small Steps ar flaen y gad o ran defnyddio addysg, ymgysylltiad, mentora a gweithgareddau llawr gwlad i fynd i'r afael ag ideoleg, gweithgarwch, a dylanwad yr Adain Dde Eithafol (ERW).

- Lansiwyd Cronfa Grantiau Bach Cydlyniad Cymunedol Rhanbarthol yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb 2023 sydd wedi gweld nifer yn manteisio. Seiliwyd amcanion y gronfa ar groesawu mentrau, monitro tensiynau cymunedol, cefnogi cyfnodau cymdeithasol a diwylliannol arwyddocaol o'r flwyddyn megis Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb a Mis Hanes Pobl Dduon a mentrau sy'n helpu i adeiladu gwydnwch cymunedol.

- Rydym yn parhau i rannu gwybodaeth drwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth o droseddau/digwyddiadau casineb a sut i gael cymorth drwy Gymorth i Ddioddefwyr a Heddlu De Cymru. Bu ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ar gyfer Wythnos Ymwybyddiaeth Troseddau Casineb 2023 ar draws y rhanbarth. Hyrwyddwyd deunydd gan Ganolfan Cymorth Casineb Cymru ar gyfer yr ymgyrch a oedd yn cynnwys gwybodaeth ynghylch thema 2023 sef Gwrth-semitiaeth a chefnogaeth ehangach ar gyfer pob math o ddigwyddiadau a throsedd casineb.

- Tra bod Mis Hanes Pobl Dduon wedi cael ei hyrwyddo pob blwyddyn, ar gyfer Mis Hanes Pobl Dduon 2023 bu i'r tîm wahodd myfyrwyr coleg Pen-y-bont ar Ogwr ac aelodau o Gyngor Ieuenctid Pen-y-bont ar Ogwr i greu byrddau gweledol i gynrychioli'r mis a beth mae'n ei olygu iddynt. Yna fe wnaethon ni arddangos y byrddau yn y Swyddfeydd Dinesig i hyrwyddo'r mis a dangos ein cefnogaeth o grwpiau a chymunedau sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd.

### 3.6 Cyfranogiad

- Mae'r tîm ymgynghori yn parhau i gydweithio â People First Pen-y-bont ar Ogwr a'r cyngor ieuenctid i ddatblygu a hyrwyddo ymgynghoriadau ieuenctid a hawdd i'w darllen.

- Fel rhan o'r pecyn cymorth a chyngor i staff sy'n cynnal ymgynghoriadau, mae'r tîm yn pwysleisio pwysigrwydd defnyddio iaith syml, sy'n hawdd i'w darllen. Rydym hefyd yn darparu manylion iddynt ynghylch cael fersiynau

hawdd i'w darllen o wybodaeth gymhleth a'u cyfeirio at y darparwyr gwasanaeth hyn. Caiff gwybodaeth ynghylch y gwasanaeth cyfieithu ei rannu'n rheolaidd â staff gan y tîm.

- Mae'r cyngor ieuenctid, ysgolion lleol a Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyfrannu at ymgynghoriadau amrywiol trwy gydol y flwyddyn. Mae sesiynau ymgysylltu hefyd wedi cael eu cynnal gyda'r rhwydweithiau hyn, gan gynnwys sesiynau gwybodaeth a chyfranogiad gydag ysgolion.

- Mae'r llwyfan ymgysylltiad digidol newydd wedi'i gyflwyno i annog mwy o bobl i gymryd rhan yn ymgynghoriadau'r cyngor. Mae digwyddiadau ymgysylltu wyneb yn wyneb hefyd wedi cael eu cynnal ar draws y Fwrdeistref, gan sicrhau fod cymunedau sy'n anoddach i'w cyrraedd yn ardaloedd y cymoedd yn cael eu cynnwys.

- Mae partneriaeth gweithio ar y cyd wedi'i datblygu gyda'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol sy'n cynnal sesiynau codi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn rheolaidd.

- Mae cysylltiadau da bellach wedi'u sefydlu gyda grwpiau gwarchodedig yn y gymuned. Mae cyfathrebiad rheolaidd gyda BAVO, People First, V2C a sefydliadau eraill sy'n cefnogi i adolygu unrhyw rwystrau y mae defnyddwyr gwasanaeth yn eu hwynebu a sut y gellir lliniaru'r rhain.

- Bu trosolwg llawn ynghylch sut caiff y panel dinasyddion ei reoli. Mae gwaith ar y gweill i ddod o hyd i ffyrdd gwell o ddefnyddio'r llwyfannau cyfathrebu ac ymgysylltu digidol i reoli tanysgrifiadau, cynhyrchu cylchlythyrau a diweddariadau a chynyddu niferoedd y tanysgrifwyr/aelodau.

- Hyrwyddwyd digwyddiadau megis PRIDE Cymru, Mis Hanes Pobl Ddu, Diwrnod Cofio'r Holocost, mis ymwybyddiaeth Troseddau Casineb ac eraill trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol corfforaethol dwyieithog yn ogystal â datganiadau i'r wasg ac yn fewnol trwy negeseuon wythnosol Bridgenders.

- Mae Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad corfforaethol newydd wedi'i datblygu i sicrhau fod pobl yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yn cael bod yn rhan o benderfyniadau allweddol ynghylch newidiadau y gallai eu heffeithio.

- Mae CBS Pen-y-bont ar Ogwr wedi hyrwyddo ymgyrchoedd trwy Twitter, Facebook, Instagram a gwefan CBS Pen-y-bont yn cynnwys:

    - Pythefnos Gofal Maeth 2020
    - Swyddi Gofal Cymdeithasol – Wecarewales
    - Diwrnod myfyrio
    - Digwyddiad Women in Wales

- Maethu LHDT - trwy gydol y flwyddyn
- Cymorth Ieuenctid
- Mae casineb yn brifo Cymru - Troseddau Casineb
- Cynnig Gofal Plant
- Rhoi gwaed
- Profi cymunedol
- Wythnos Awtistiaeth y Byd
- Diwrnod Rhyngwladol yn erbyn Homoffobia, Deuffobia a Thrawsffobia
- Wythnos Iechyd Dynion
- Diwrnod y Lluoedd Arfog
- Diwrnod Ymwybyddiaeth y Samariaid
- Diwrnod Gwrth-gaethwasiaeth
- Ramadan
- Mis Ymwybyddiaeth o Straen
- Mis Balchder
- Gorffennaf Di-blastig
- Mis Cenedlaethol Cerdded
- Mis Hanes Pobl Dduon
- Wythnos Ffoaduriaid
- Wythnos Ymwybyddiaeth o Bobl sy'n Fyddar ac yn Ddall
- Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl
- Mis Balchder
- #CymruGwrthHiliol
- Wythnos Gofalwyr
- Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl Babanod
- Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Mis Balchder Anabledd
- Wythnos Ymwybyddiaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Eisteddfod
- Diwrnod Iechyd Meddwl y Byd
- Diwrnod Shwmae Sumae
- #LGBTplusHM
- Cymraeg
- #WythnosCydraddoldebHil23
- Wythnos Mabwysiadu a Maethu LHDTC+ 2023
- Diwrnod Rhyngwladol Diddymu Gwahaniaethu ar Sail Hil
- Diwrnod Syndrom Down y Byd
- Ramadan
- #diwrnodgwaithcymdeithasolybyd
- Diwrnod Amlygrwydd Pobl Drawsryweddol

## 4. Cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu

Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, cynhaliodd y cyngor 15 ymgynghoriad cyhoeddus:

| |
|---|
| Cynllun 20mya |
| Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus - Baw ci |
| Arolygon Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Canolfannau ailgylchu cymunedol |
| Cynllun Strategol 3 Blynedd - Gofal Cymdeithasol Plant |
| Polisi Strategaeth Dai |
| Cynllun Creu Lle - Canol Tref Maesteg |
| Hunanasesiad Corfforaethol |
| Arolwg Adborth Fy Nghyfrif |
| Strategaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad |
| Amcanion y Cynllun Cydraddoldeb Strategol |
| Strategaeth Adfywio'r Cymoedd |
| Cynllun Creu Lle Canol Tref Porthcawl |
| Cyllideb 2023 |
| Canol Tref Maesteg - Arolwg Adborth |

- Mae’r panel dinasyddion yn parhau i dderbyn ymgynghoriadau allweddol ac mae’r rhain yn cael eu hanfon i aelodau trwy e-bost a thrwy’r post. Trwy gael aelodau’r panel yn cymryd rhan ragweithiol yn yr ymgynghoriadau, mae hyn yn ein galluogi i gynnwys eu hadborth yn ein canfyddiadau, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag anghenion a disgwyliadau’r gymuned.

## 5. Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb (EIAs)

Mae 327 o weithwyr y Cyngor wedi cwblhau’r modiwl e-ddysgu EIA hyd yn hyn.
Yn ystod y cyfnod Ebrill 2023 hyd at Mawrth 2024, mae 26 o weithwyr y Cyngor wedi cwblhau hyfforddiant EIA trwy e-ddysgu ac mae 11 o weithwyr wedi cwblhau’r hyfforddiant EIA trwy weithdai.

Mae gweminar Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ar gael i staff unrhyw bryd ar y wefan Dysgu a Datblygu.


## 6. Trefniadau caffael

Mae meysydd gwasanaeth yn gweithio gyda'r tîm caffael i sicrhau bod AEGau yn cael eu hymgorffori yn y broses caffael. Mae’r rheolau gweithdrefnau contract yn gofyn am gontractau sy’n destun y rheolau i gynnwys fel isafswm, cymalau yn ymwneud â chydraddoldebau a hawliau dynol, Safonau’r Gymraeg a Chaethwasiaeth Fodern. Mae materion cydraddoldeb yn cael eu hymgorffori'n llawn yn y broses caffael o'r cyfnod cyn-cymhwyso i ddyfarnu cytundeb. Mae’r cymal ynghylch Safonau’r Gymraeg wedi’i gynnwys mewn cytundebau lle mae angen cydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio â’r Gymraeg.

## 7. Gwybodaeth cyflogaeth

Mae'r manylion o fewn yr adran hon yn seiliedig ar wybodaeth cyflogaeth fel ag yr oedd 31 Mawrth 2024, ac ar yr adeg honno roedd 6,015 wedi'u cyflogi, gan gynnwys y rhai wedi'u cyflogi mewn ysgolion.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys dangosfwrdd ar y data, os yw wedi'i ddatgelu, ar nodweddion gwarchodedig y gweithlu. Caiff y wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn ei darparu'n wirfoddol gan weithwyr. Mae'r wybodaeth yn y dangosfwrdd gweithlu yn seiliedig ar y nifer cyffredinol o weithwyr.




Yn ystod y flwyddyn 2023/24, roedd 195 o weithwyr ar gyfnod mamolaeth/ mabwysiadu a 14 ar gyfnod tadolaeth.

<u>Y Gymraeg</u>

Mae categorïau'r Gymraeg wedi'u diweddaru i sicrhau cysondeb ar draws lefel cenedlaethol. Cymhathwyd data a gadwyd eisoes drosodd i'r categorïau newydd ac fe anfonwyd cyfathrebiadau yn ystod Ionawr 2024 i ofyn i weithwyr ddiweddaru eu gwybodaeth sensitif ynghyd â gwirio a diweddaru eu gallu yn y Gymraeg gan ddilyn y disgrifyddion gofynnol.

| Yn Siarad Cymraeg | |
|---|---|
| Category WL | Nifer y Gweithwyr |
| 0 Dim Sgiliau | 1984 |
| A1 - Lefel Mynediad | 1153 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | * |
| B1 - Lefel Ganolradd | 168 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| CI - Lefel Rhuglder | 285 |
| C2 - Cwbl Rugl | * |
| Gwell gennyf beidio â dv | * |
| Heb Ddatgan | 2416 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **6015** |

| Yn Darllen Cymraeg | |
|---|---|
| Category WL | Nifer y Gweithwyr |
| 0 Dim Sgiliau | 1952 |
| A1 - Lefel Mynediad | 1150 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | * |
| B1 - Lefel Ganolradd | 200 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| CI - Lefel Rhuglder | 284 |
| C2 - Cwbl Rugl | * |
| Gwell gennyf beidio â dv | * |
| Heb Ddatgan | 2420 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **6015** |

| Yn Ysgrifennu yn Gymraeg | |
|---|---|
| Category WL | Nifer y Gweithwyr |
| 0 Dim Sgiliau | 2200 |
| A1 - Lefel Mynediad | 955 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | * |
| B1 - Lefel Ganolradd | 167 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| CI - Lefel Rhuglder | 264 |
| C2 - Cwbl Rugl | * |
| Gwell gennyf beidio â dw | * |
| Heb Ddatgan | 2420 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **6015** |

| Yn gallu Gwrando ar y Gymraeg | |
|---|---|
| Category WL | Nifer y Gweithwyr |
| 0 Dim Sgiliau | 75 |
| A1 - Lefel Mynediad | 60 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | 7 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 6 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| CI - Lefel Rhuglder | * |
| C2 - Cwbl Rugl | * |
| Gwell gennyf beidio â dv | * |
| Heb Ddatgan | 5854 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **6015** |


Mae nifer o weithwyr (2,626) hefyd wedi cwblhau modiwlau E-ddysgu'r Cyngor ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a safonau'r Gymraeg yn ystod 2023/2024.

## 8. Gweithwyr ar 31 Mawrth 2024 yn ôl Gradd

Fel y nodwyd yn y blynyddoedd blaenorol, rhoddwyd strwythur cyflogau a graddau'r cyngor ar waith ar 1 Medi 2013 ac mae yna fecanwaith clir a chadarn yn ei le i werthuso graddau perthnasol y swyddi. Mae hyn ar sail rolau a chyfrifoldebau yn hytrach na ffactorau unigol sy'n berthnasol i'r gweithiwr.

Mae'r tabl isod yn dangos y rhyw o fewn pob grŵp gradd, ac fe gaiff y rhain eu cyfrif fesul swydd (7,573), nid nifer gweithwyr.

| Gradd | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Graddau JE 1 – 8 (£22,366 - £30,296) (ar 31.03.2024) | 4.365 | 785 |
| Graddau JE 9 – 10 (£32,076 - £36,648) (ar 31.03.2024) | 259 | 120 |
| Graddau JE 11 – 16 (£38,223 - £57,747) (ar 31.03.2024) | 384 | 158 |
| Prif Swyddogion (£60,937 - £152,170) (ar 31.03.2024) | 10 | 12 |
| Swyddogion Soulbury a swyddogion ieuenctid (£25,664 - £74,403) (Soulbury fel ag yr oedd 01.09.2023 / ieuenctid fel ag yr oedd 01.09.2023) | 59 | 7 |
| Athrawon heb gymhwyso, athrawon, penaethiaid, dirprwyon a phenaethiaid cynorthwyol (£20,674 - £133,350) (ar 01.09.2023) | 1.060 | 354 |




## Y Gymraeg

| Yn Siarad Cymraeg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau/Graddau** | **Gradd 1-8** | **Gradd 9-10** | **Gradd 11-16** | **Prif Swyddogion** | **Swyddogion Soulbury** | **Athrawon** |
| 0 Dim Sgiliau | 1393 | 172 | 309 | 14 | 23 | 73 |
| A1 - Lefel Mynediad | 697 | 87 | 112 | 2 | 16 | 239 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | 1 | 1 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 56 | 10 | 15 | 1 | 2 | 84 |
| B2 - Lefel Uwch | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CI - Lefel Rhuglder | 131 | 24 | 21 | 0 | 6 | 103 |
| C2 - Cwbl Rugl | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Heb Ddatgan | 1415 | 65 | 65 | 5 | 5 | 861 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **3697** | **360** | **524** | **22** | **52** | **1360** |

| Yn Darllen Cymraeg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau/Graddau** | **Gradd 1-8** | **Gradd 9-10** | **Gradd 11-16** | **Prif Swyddogion** | **Swyddogion Soulbury** | **Athrawon** |
| 0 Dim Sgiliau | 1371 | 174 | 306 | 12 | 20 | 69 |
| A1 - Lefel Mynediad | 690 | 86 | 112 | 4 | 20 | 238 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 84 | 9 | 17 | 1 | 1 | 88 |
| B2 - Lefel Uwch | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CI - Lefel Rhuglder | 130 | 23 | 22 | 0 | 6 | 103 |
| C2 - Cwbl Rugl | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Heb Ddatgan | 1417 | 66 | 66 | 5 | 5 | 861 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **3692** | **360** | **524** | **22** | **52** | **1360** |

| Yn Ysgrifennu yn Gymraeg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau/Graddau** | **Gradd 1-8** | **Gradd 9-10** | **Gradd 11-16** | **Prif Swyddogion** | **Swyddogion Soulbury** | **Athrawon** |
| 0 Dim Sgiliau | 1534 | 196 | 348 | 15 | 24 | 83 |
| A1 - Lefel Mynediad | 557 | 66 | 74 | 1 | 17 | 240 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 63 | 11 | 19 | 1 | 0 | 73 |
| B2 - Lefel Uwch | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CI - Lefel Rhuglder | 121 | 19 | 17 | 0 | 6 | 101 |
| C2 - Cwbl Rugl | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Heb Ddatgan | 1417 | 66 | 65 | 5 | 5 | 862 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **3697** | **360** | **524** | **22** | **52** | **1360** |


| Yn gallu Gwrando ar y Gymraeg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sgiliau/Graddau** | **Gradd 1-8** | **Gradd 9-10** | **Gradd 11-16** | **Prif Swyddogion** | **Swyddogion Soulbury** | **Athrawon** |
| 0 Dim Sgiliau | 1534 | 196 | 348 | 15 | 24 | 83 |
| A1 - Lefel Mynediad | 557 | 66 | 74 | 1 | 17 | 240 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | 1 | 1 | 1 | 0 | 0 | 1 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 63 | 11 | 19 | 1 | 0 | 73 |
| B2 - Lefel Uwch | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| CI - Lefel Rhuglder | 121 | 19 | 17 | 0 | 6 | 101 |
| C2 - Cwbl Rugl | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Heb Ddatgan | 1417 | 66 | 65 | 5 | 5 | 862 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **3697** | **360** | **524** | **22** | **52** | **1360** |

## 9. Ymgeiswyr am Swyddi

Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, derbyniodd y cyngor 6,063 cais trwy'r system recriwtio AD, am 977 swydd a gan 3,609 ymgeisydd, gan gynnwys ceisiadau mewnol ac allanol. Nid yw'r data'n cynnwys ceisiadau sydd wedi'u derbyn yn uniongyrchol gan rai ysgolion.

Gellir cadarnhau hefyd y bu 813 o ymgeiswyr yn llwyddiannus wrth geisio am swydd gyda BCBC yn ystod y cyfnod hwn. Mewn rhai achosion, ni wnaeth ymgeiswyr ddatgan gwybodaeth ar gyfer pob un nodwedd warchodedig.

Lle defnyddiwyd dadansoddiad canrannol mae hyn yn seiliedig ar gyfanswm nifer yr ymgeiswyr neu gyfanswm yr ymgeiswyr a benodwyd.




## Y Gymraeg

Mae dau set o ddata wedi'u cyfuno ar gyfer y Gymraeg mewn perthynas â'r data recriwtio. Mae'r rhain yn dangos nifer yr ymgeiswyr a nifer yr ymgeiswyr a benodwyd â gallu yn y Gymraeg.

## Ymgeiswyr

| Yn Siarad Cymraeg | |
|---|---|
| **Category WL** | **Nifer y Gweithwyr** |
| 0 Dim Sgiliau | 762 |
| A1 - Lefel Mynediad | 543 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | 94 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 72 |
| B2 - Lefel Uwch | 12 |
| CI - Lefel Rhuglder | 56 |
| C2 - Cwbl Rugl | 33 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 22 |
| Heb Ddatgan | 2015 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **3609** |

| Yn Darllen Cymraeg | |
|---|---|
| **Category WL** | **Nifer y Gweithwyr** |
| 0 Dim Sgiliau | 811 |
| A1 - Lefel Mynediad | 488 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | 91 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 75 |
| B2 - Lefel Uwch | 14 |
| CI - Lefel Rhuglder | 56 |
| C2 - Cwbl Rugl | 38 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 20 |
| Heb Ddatgan | 2016 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **3609** |

| Yn Ysgrifennu yn Gymraeg | |
|---|---|
| **Category WL** | **Nifer y Gweithwyr** |
| 0 Dim Sgiliau | 906 |
| A1 - Lefel Mynediad | 424 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | 84 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 62 |
| B2 - Lefel Uwch | 13 |
| CI - Lefel Rhuglder | 57 |
| C2 - Cwbl Rugl | 29 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 19 |
| Heb Ddatgan | 2015 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **3609** |

| Yn gallu Gwrando ar y Gymraeg | |
|---|---|
| **Category WL** | **Nifer y Gweithwyr** |
| 0 Dim Sgiliau | 501 |
| A1 - Lefel Mynediad | 315 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | 104 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 34 |
| B2 - Lefel Uwch | 17 |
| CI - Lefel Rhuglder | 16 |
| C2 - Cwbl Rugl | 42 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 23 |
| Heb Ddatgan | 2557 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **3609** |

## Ymgeiswyr a benodwyd

| Yn Siarad Cymraeg | |
|---|---|
| **Category WL** | **Nifer y Gweithwyr** |
| 0 Dim Sgiliau | 267 |
| A1 - Lefel Mynediad | 248 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | 9 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 30 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| CI - Lefel Rhuglder | 36 |
| C2 - Cwbl Rugl | 7 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | 5 |
| Heb Ddatgan | 210 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **813** |

| Yn Darllen Cymraeg | |
|---|---|
| **Category WL** | **Nifer y Gweithwyr** |
| 0 Dim Sgiliau | 303 |
| A1 - Lefel Mynediad | 205 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | 10 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 32 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| CI - Lefel Rhuglder | 37 |
| C2 - Cwbl Rugl | 9 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * |
| Heb Ddatgan | 210 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **813** |

| Yn Ysgrifennu yn Gymraeg | |
|---|---|
| **Category WL** | **Nifer y Gweithwyr** |
| 0 Dim Sgiliau | 341 |
| A1 - Lefel Mynediad | 180 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | 8 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 25 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| CI - Lefel Rhuglder | 34 |
| C2 - Cwbl Rugl | 8 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * |
| Heb Ddatgan | 210 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **813** |

| Yn gallu Gwrando ar y Gymraeg | |
|---|---|
| **Category WL** | **Nifer y Gweithwyr** |
| 0 Dim Sgiliau | 103 |
| A1 - Lefel Mynediad | 84 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | 14 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 6 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| CI - Lefel Rhuglder | 8 |
| C2 - Cwbl Rugl | 11 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * |
| Heb Ddatgan | 580 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **813** |

## 10. E-ddysgu Gweithwyr


Darpariaeth hyfforddiant staff corfforaethol y cyngor:

- **Hyfforddiant ôl-mynediad** – mae gweithwyr yn gofyn am hyfforddiant gwasanaeth-benodol drwy'r polisi hyfforddi ôl-fynediad. Ceisiadau a gytunwyd gan reolwyr llinell yn unig a anfonir i'r adran Adnoddau Dynol ac felly, nid oes modd i ni nodi'r rhai a'u gwrthodwyd.

- **Hyfforddiant wyneb yn wyneb** – mae'r rhan fwyaf o'n hyfforddiant wyneb yn wyneb yn targedu gweithwyr ar sail natur y swydd a'r cyfrifoldebau. Felly, ni wrthodwyd unrhyw gais am hyfforddiant o'r math hwn.

- **E-ddysgu** – darperir y rhan fwyaf o'r hyfforddiant corfforaethol trwy e-ddysgu y gall gweithwyr gael mynediad ato'n uniongyrchol yn y rhan fwyaf o achosion.

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 roedd yr holl raglenni hyfforddiant ar gael gyda rhaglen sylweddol yn cael ei chynnig ar-lein. Cwblhawyd modiwlau e-ddysgu gan 3,617 o weithwyr. Lle defnyddiwyd dadansoddiad canrannol mae hyn yn seiliedig ar gyfanswm nifer y gweithwyr sydd wedi ymgymryd ag e-ddysgu (3,617).



## Y Gymraeg

| Yn Siarad Cymraeg | |
|---|---|
| **Category WL** | **Nifer y Gweithwyr** |
| 0 Dim Sgiliau | 1379 |
| A1 - Lefel Mynediad | 761 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | * |
| B1 - Lefel Ganolradd | 91 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| CI - Lefel Rhugl der | 162 |
| C2 - Cwbl Rugl | * |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * |
| Heb Ddatgan | 1214 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **3617** |

| Yn Darllen Cymraeg | |
|---|---|
| **Category WL** | **Nifer y Gweithwyr** |
| 0 Dim Sgiliau | 1366 |
| A1 - Lefel Mynediad | 751 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | * |
| B1 - Lefel Ganolradd | 108 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| CI - Lefel Rhugl der | 166 |
| C2 - Cwbl Rugl | * |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * |
| Heb Ddatgan | 1216 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **3617** |

| Yn Ysgrifennu yn Gymraeg | |
|---|---|
| **Category WL** | **Nifer y Gweithwyr** |
| 0 Dim Sgiliau | 1547 |
| A1 - Lefel Mynediad | 603 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | * |
| B1 - Lefel Ganolradd | 90 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| CI - Lefel Rhugl der | 152 |
| C2 - Cwbl Rugl | * |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * |
| Heb Ddatgan | 1215 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **3617** |


| Yn gallu Gwrando ar y Gymraeg | |
|---|---|
| **Category WL** | **Nifer y Gweithwyr** |
| 0 Dim Sgiliau | 120 |
| A1 - Lefel Mynediad | 113 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | 10 |
| B1 - Lefel Ganolradd | 9 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| CI - Lefel Rhugl der | 9 |
| C2 - Cwbl Rugl | 10 |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * |
| Heb Ddatgan | 3338 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **3617** |

## 11. Materion Datrys a Disgyblu

Rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024, bu cyfanswm o 17 mater datrys a disgyblu. Ni allwn ddatgelu nodweddion gwarchodedig y gweithwyr hyn oherwydd bod swm y data yn rhy fach i ni ei ddehongli mewn ffordd ystyrlon. Er, nid yw'r wybodaeth yn dangos unrhyw achos pryder.

## 12. Ymadawyr

Mae'r data canlynol yn crynhoi nodweddion gwarchodedig y 731 unigolyn a adawodd y Cyngor rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024. Mae'r data ar nodweddion gwarchodedig (ac eithrio rhywedd ac oedran) ar sail gwybodaeth a gyflwynodd y gweithwyr o'u gwirfodd. Lle defnyddiwyd dadansoddiad canrannol mae hyn yn seiliedig ar gyfanswm nifer yr ymadawyr (731).



Y Gymraeg

| Yn Siarad Cymraeg | |
|---|---|
| Category WL | Nifer y Gweithwyr |
| 0 Dim Sgiliau | 84 |
| A1 - Lefel Mynediad | 41 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | * |
| B1 - Lefel Ganolradd | 8 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| CI - Lefel Rhuglder | 10 |
| C2 - Cwbl Rugl | * |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * |
| Heb Ddatgan | 583 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **731** |

| Yn Darllen Cymraeg | |
|---|---|
| Category WL | Nifer y Gweithwyr |
| 0 Dim Sgiliau | 86 |
| A1 - Lefel Mynediad | 37 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | * |
| B1 - Lefel Ganolradd | 10 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| CI - Lefel Rhuglder | 10 |
| C2 - Cwbl Rugl | * |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * |
| Heb Ddatgan | 583 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **731** |

| Yn Ysgrifennu yn Gymraeg | |
|---|---|
| Category WL | Nifer y Gweithwyr |
| 0 Dim Sgiliau | 96 |
| A1 - Lefel Mynediad | 30 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | * |
| B1 - Lefel Ganolradd | 8 |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| CI - Lefel Rhuglder | 7 |
| C2 - Cwbl Rugl | * |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * |
| Heb Ddatgan | 583 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **731** |

| Yn gallu Gwrando ar y Gymraeg | |
|---|---|
| Category WL | Nifer y Gweithwyr |
| 0 Dim Sgiliau | 10 |
| A1 - Lefel Mynediad | 10 |
| A2 - Lefel Sylfaenol | * |
| B1 - Lefel Ganolradd | * |
| B2 - Lefel Uwch | * |
| CI - Lefel Rhuglder | * |
| C2 - Cwbl Rugl | * |
| Gwell gennyf beidio â dweud | * |
| Heb Ddatgan | 703 |
| **Cyfanswm Terfynol** | **731** |

Mae'r cyngor yn parhau i wella ei ddulliau casglu data. Fodd bynnag, mae hyn yn dibynnu ar unigolion yn dymuno datgelu eu hunaniaeth, sy'n arbennig o sensitif o amgylch rhai o'r nodweddion gwarchodedig. Mae gweithwyr yn cael cynnig y cyfle i ddatgan 'byddai'n well gennyf beidio â dweud' sy'n ddata defnyddiol ynddo'i hun.

Gyda mwy o anogaeth i weithwyr gwblhau eu gwybodaeth bersonol a sensitif trwy system hunanwasanaeth gweithwyr y cyngor, y gobaith yw y bydd y categorïau hyn o 'ddim wedi'u datgan' yn lleihau dros y blynyddoedd i ddod.

## 13. Ymgysylltu ac ymgynghori

Rydym yn ceisio cynnwys barn grwpiau cynrychiadol yn ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau fel y gallwn ddatblygu gwasanaethau hygyrch ar gyfer y cyhoedd a'n gweithwyr.

Mae ymgysylltu'n rhan bwysig o'n gwaith felly rydym yn rhoi prosesau penodol ar waith i sicrhau yr ystyrir anghenion pobl ac yr eir i'r afael â'r holl agweddau ar gydraddoldeb.

Mae gweithwyr a rhanddeiliaid sy'n cynrychioli grwpiau â nodweddion gwarchodedig yn rhan o ddarparu, gweithredu, monitro a gwerthuso ein hamcanion.

Rydym yn cyhoeddi adroddiadau ymgynghori ar ganlyniad ein gweithgarwch ymgysylltu i ddangos yn glir sut mae pobl wedi dylanwadu ar gynllunio a gwneud penderfyniadau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

## 14. Cysylltu â ni

Os hoffech ragor o wybodaeth am ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol neu gopi o'r cynllun mewn fformat arall, cysylltwch â ni:

Drwy e-bost: equalities@bridgend.gov.uk
Dros y ffôn: 01656 643664
Drwy ffôn testun: 18001 01656 643643
Drwy ffacs: 01656 668126
Yn ysgrifenedig: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4WB.
Mae ein Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid ar agor rhwng 8.30am a 5.00pm, o ddydd Llun i ddydd Iau a rhwng 8.30am a 4.30pm ar ddydd Gwener.
Dyma ein gweithdrefn gwyno.